



# Gwers 37

## Sacheus



Cyfras Stori Duw

Luc 19:1–10

### Nod:

Sylweddoli bod Iesu yn ein nabod ninnau fel Sacheus ac yn ein galw ninnau hefyd i fyw iddo.

### Adnodau:

Luc 19:1–10

### Gweithgaredd:

Chwarae Twyllwr! Twyllwr!

Ras gyfnewid ydi'r gêm yma, lle mae pob aelod o'r tîm yn ceisio twyllo heb gael eu dal!

Ar gyfer y gweithgaredd yma byddech angen 4 blwch neu fwced bach, 2 gyda cheiniogau ynddynt (yr un faint o geiniogau yn y ddau). Rhannwch y dosbarth i ddau dîm cyfartal. Rhowch y ddau flwch llawn ceiniogau yn un pen yr ystafell, y ddau wag ym mhen arall i'r ystafell. Gofynnwch i'r bobl ifanc i sefyll mewn 2 linell yn eu timau ar yr un ochr a'r blychau gwag. Nod y gêm yw llenwi'r blwch gwag gyda chyn gymaint o geiniogau â phosib, y tîm sydd â'r mwyaf ar ddiwedd y gêm sy'n fuddugol.

Mae'r person cyntaf yn y llinell yn rhedeg at un o'r blychau sydd ar ochr arall yr ystafell, i godi ceiniog a'i gario i flwch eu tîm. Gall y rhedwr gymryd 1 ceiniog ar y tro yn unig (cofiwch eu bod i geisio twyllo). Parhewch hyd nes bydd y ceiniogau i gyd wedi trosglwyddo o'r blychau llawn i flychau'r timoedd. Cofiwch alw 'twyllwr' os ydych yn dal rhywun yn twyllo, ac os daliwch rhywun bydd y ceiniogau yn mynd i'r tîm arall.

Eglurwch ein bod am glywed hanes dyn oedd yn arbenigwr mewn twyllo, a dwyn pres oddi wrth bobl eraill, ond dyma'r diwrnod y newidiodd ei fywyd.

### Darllen yr adnodau:

Luc 19:1–10 Rhowch bawb i eistedd mewn cylch ac i ddarllen un adnod yn eu tro hyd ddiwedd y darn. Eglurwch y bydd cwis ar y darn ar ôl ei ddarllen, felly mae angen canolbwyntio.

### Cwis astudio:

Gofynnwch i'r bobl ifanc eistedd yn y ddau dîm unwaith eto a chau pob Beibl. Rhowch ddarn o bapur a beiro i bob tîm, bydd angen un i ysgrifennu. Gofynnwch y cwestiynau canlynol, cadwch yr atebion i gyd hyd y diwedd:

1. Pa le oedd Iesu wedi cyrraedd? (Jericho)
2. Pa fath o goeden a ddringodd Sacheus? (Sycamorwydden)
3. Beth oedd gwaith Sacheus? (Casglwr trethi)
4. Faint o'i eiddo oedd Sacheus am ei roi i'r tlodion? (Hanner)
5. Pam oedd pobl yn grwgnach i Iesu fynd at Sacheus? (roedd yn bechadur)
6. Pam aeth Sacheus i fyny'r goeden? (gallwch dderbyn 'gormod o dyrfa' neu 'oherwydd ei fod yn fyr')

7. Pwy ddaeth Mab y Dyn i'w achub yn ôl lesu? (y colledig)

8. Mab i bwy ddywedodd lesu oedd Sacheus (ddim yn llythrennol)? Abraham.

Gofynnwch i'r timau gyfnewid papur ateb a'u sgorio gyda'ch gilydd.

### **Trafodaeth :**

Roedd lesu yn gwybod enw Sacheus heb hyd yn oed ei gyfarfod – ond roedd yn gwybod mwy na hynny amdano. Er bod lesu yn gwybod popeth am Sacheus ac yn gwybod ei fod yn twyllo pobl, nid ydyw yn rhoi ffræ iddo. Yn gyntaf mae lesu yn dangos cariad tuag ato, mwy na thebyg doedd gan Sacheus ddim llawer o ffrindiau, felly ni fyddai wedi arfer gyda phobl yn bod yn garedig gydag ef – wedi'r cwbl roedd yn dwyn eu harian!

Beth oedd canlyniad lesu yn dangos cariad i Sacheus? (rhannodd Sacheus hanner ei eiddo gyda'r tlodion, a thalu arian yn ôl 4 gwaith yn fwy nag oedd wedi dwyn gan bobl.)

Allwn ni fod yn dangos cariad fel yma i bobl eraill, efallai yn yr ysgol? Oes yna rhai pobl sy'n unig neu'n cael eu bwlio? Efallai nad ydynt yn bobl neis iawn, ond sylwch beth ddigwyddodd i Sacheus pan gyfarfu â lesu. Gall cyfarfod â lesu wneud hyn heddiw, a gallwn ni drwy ein gweithredoedd da, a thrwy garu eraill ddangos lesu i bobl.

### **Gweithgaredd:**

Mewn timau o tua 3, dywedwch wrth y disgyblion y byddwch yn rhoi £5 dychmygol i

bob tîm, ac mae'n rhaid iddynt hwy ddyfeisio sut y byddent yn ei ddefnyddio i helpu'r tlodion yn yr ardal. Pwy fyddent yn helpu? Sut? Lle a Phryd? Gofynnwch iddynt adrodd yn ôl i bawb.

Efallai y gall hyn arwain ymlaen i'r bobl ifanc yn gwirfoddoli yn y gymuned wrth feddwl am anghenion eraill. Neu efallai y gallwch fel dosbarth wneud rhywbeth i godi arian ar gyfer elusen, lleol neu ryngwladol.

### **Amser Addoli:**

Roedd Sacheus yn fodlon rhoi hanner ei bres i'r tlodion, oherwydd ei fod wedi darganfod rhywbeth gwell. Sylweddolodd Sacheus fod lesu yn fwy gwerthfawr nag unrhyw faint o bres neu gyfoeth sydd ar y ddaear.